IS-DDEDDFWRIAETH CYMRU

# NOSC 2026 Rhif 112

# TRAFFIG FFYRDD

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr), Caergybi, Ynys Môn i Gyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *23 Mehefin 2026* |
| *Yn dod i rym* | *27 Mehefin 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr), Caergybi, Ynys Môn i Gyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2026 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 27 Mehefin 2026.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH SUBORDINATE LEGISLATION

# NWSI 2026 No. 112

# ROAD TRAFFIC

## The A55 Trunk Road (Junction 2 (Tŷ Mawr Interchange), Holyhead, Anglesey to Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange), Bangor, Gwynedd) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians) Order 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *23 June 2026* |
| *Coming into force* | *27 June 2026* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant lengths of the A55 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

**Title and commencement**

**1.** The title of this Order is the A55 Trunk Road (Junction 2 (Tŷ Mawr Interchange), Holyhead, Anglesey to Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange), Bangor, Gwynedd) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians) Order 2026 and this Order comes into force on 27 June 2026.

**Interpretation**

**2.** In this Order—

(**1**) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I.1999/672, and section 162 of, and paragraph 30(1) of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 27 Mehefin 2026 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A55 Llundain i Gaergybi a chefnffordd yr A55 Caer i Fangor.

**Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**6.** Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Atal dros dro**

**7.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cilfannau rhwng Cyffordd 2 (Bae Trearddur) a Chyffordd 8 (Llanfair Pwllgwyngyll), Ynys Môn) (Cyfyngu ar Aros) 2016(1) wedi eu hatal dros dro yn ystod yr adegau hynny pan fo'r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys.

**Cyfnod para'r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

(**1**) O.S. 2016/256 (Cy. 90).

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A55 London to Holyhead trunk road and the A55 Chester to Bangor trunk road;

"works period" ("*cyfnod y gwaith*") means intermittent periods commencing at 00:01 hours on 27 June 2026 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

**Prohibitions**

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

**4.** No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

**5.** No pedestrian may, during the works period, proceed on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

**Application**

**6.** The prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Suspension**

**7.** The provisions of the A55 Trunk Road (Lay-bys between Junction 2 (Trearddur Bay) & Junction 8 (Llanfair PG), Isle of Anglesey) (Restriction of Waiting) Order 2016(**1**) are suspended whilst the prohibitions specified in articles 3, 4 and 5 apply.

**Duration of this Order**

**8.** The maximum duration of this Order is 18 months.

(**1**) S.I. 2016/256 (W. 90).

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Trafnidiaeth, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 23 Mehefin 2026

*Nicci Hunter*
Pennaeth Llywodraethiant a Sicrwydd
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

Y darnau o ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr), Cyffordd 3 (Cyfnewidfa Pencaledog), Cyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar), Cyffordd 5 (Cyfnewidfa yr A4080/Treban), Cyffordd 6 (Cyfnewidfa Tyrpeg Nant), Cyffordd 7 (Cyfnewidfa Cefn Du), Cyffordd 8 (Cyfnewidfa Ael-y-Bowl), Cyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth) a Chyffordd 10 (Cyfnewidfa Ffordd Caernarfon).

Y darnau o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 7A (Cyffordd Gorllewin Llanfairpwll), y ffordd ymuno tua'r dwyrain a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 8A (Cyffordd yr A5/Pont Britannia) a'r ffordd ymadael tua'r dwyrain a'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt).

Y darnau o gilfannau'r gefnffordd rhwng Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr) a Chyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt).

Signed on behalf of the Deputy Minister for Transport, acting under the authority of the Cabinet Minister for Enterprise, Connectivity and Energy, one of the Welsh Ministers.

Dated 23 June 2026

*Nicci Hunter*
Head of Governance and Assurance
Welsh Government

**SCHEDULE**

The lengths of the eastbound and westbound exit and entry slip roads of the trunk road at Junction 2 (Tŷ Mawr Interchange), Junction 3 (Pencaledog Interchange), Junction 4 (Dalar Interchange), Junction 5 (A4080/Treban Interchange), Junction 6 (Nant Turnpike Interchange), Junction 7 (Cefn Du Interchange), Junction 8 (Ael y Bowl Interchange), Junction 9 (Treborth Interchange) and Junction 10 (Caernarfon Road Interchange).

The lengths of the westbound exit slip road at Junction 7A (Llanfairpwll West Junction), eastbound entry and westbound exit slip roads at Junction 8A (A5/Britannia Bridge Interchange) and eastbound exit and westbound entry slip roads at Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange).

The lengths of the trunk road lay-bys between Junction 2 (Tŷ Mawr Interchange) and Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange).